OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 154 (Cy.24)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*29 Ionawr 2003*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 24(4), (5), (6) a (9), adran 38(1), (5) a (7) ac adran 39(1) a (3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol —

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 31 Mawrth 2003.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, mae i'r geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol —

(a) mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a roddir i "*local authority*" yn adran 24 (9)(a) o Ddeddf 2002;

(b) ystyr "corff GIG" ("*NHS body*") yw Awdurdod Iechyd, Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG, Awdurdod Iechyd Strategol, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol neu Ymddiriedolaeth Gofal(**2**);

(**1**) 2002 p.17.

(**2**) Mae'r cyrff GIG y cyfeirir atynt yn deillio o'r ddeddfwrieth ganlynol. Crewyd Awdurdodau Iechyd ar gyfer Cymru a Lloegr yn unol ag adran 8 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (1977 p.49). Yng Nghymru, caiff yr Awdurdodau Iechyd eu diddymu a hynny'n effeithiol o 31 Mawrth 2003 yn unol ag adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (1998 p.38) — gweler Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003. Mae Byrddau Iechyd Lleol i gael eu sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan a.16BA o Ddeddf 1977 a byddant yn dechrau gweithredu a hynny'n effeithiol o 31 Mawrth 2003 — gweler Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu)(Cymru 2003 (O.S. 2003/148, Cy.18). Yn Lloegr, mae Awdurdodau Iechyd yn cael eu hailenwi yn Awdurdodau Iechyd Strategol (adran 1 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (2002 p.17). Mae Byrddau Iechyd Lleol i gael eu sefydlu gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 16BA o Ddeddf 1977 a byddant yn dechrau gweithredu a hynny'n effeithiol o 31 Mawrth 2003. Crewyd Ymddiriedolaethau GIG yn unol ag adran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (1990 p.19). Gellir creu Ymddiredolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr yn unol ag adran 16A o Ddeddf 1977. Gellir dynodi Ymddiredolaethau GIG ac Ymddiredolaethau Gofal Sylfaenol fel Ymddiriedolaethau Gofal yn unol ag adran 45 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (2001 p.15).

(c) ystyr "cyfnod gweithredol" ("*operative period*") yw'r cyfnod y caiff strategaeth ei llunio mewn perthynas ag ef;

(ch) ystyr "Cynulliad" ("*Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(d) mae i "cyrff cyfrifol" yr ystyr a roddir i "*responsible bodies*" yn a.24(2) o Ddeddf 2002;

(dd) ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002;

(e) ystyr "grŵp trefniant comisiynu" ("*commissioning arrangement group*") yw'r grŵp sy'n cynnwys y cyrff cyfrifol ac Ymddiriedolaeth neu Ymddiriedolaethau GIG ac sydd wedi'i ddynodi mewn canllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Cynulliad at ddibenion ymgymryd â threfniant comisiynu;

(f) mae "gwasanaethau" ("*services*") yn cynnwys unrhyw swyddogaeth neu weithgaredd a fwriedir i hwyluso darparu unrhyw wasanaeth y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn, neu i fod yn ffafriol neu'n ategol iddi;

(ff) ystyr "gwasanaethau gofal eilaidd" ("*secondary care services*") yw gwasanaethau ar gyfer neu mewn cysylltiad ag atal, gwneud diagnosis neu drin salwch sy'n cael eu darparu yn bennaf mewn ysbyty neu o ysbyty (ac mae i'r geiriau "*illness*" a "*hospital*" yr ystyron a roddir iddynt gan adran 128(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**3**));

(g) ystyr "gwasanaethau iechyd a llesiant" ("*health and well-being services*") yw unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu gan gorff GIG; unrhyw wasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol) sy'n cael eu darparu o dan neu mewn cysylltiad â swyddogaethau awdurdod lleol o dan Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970(**4**), adran 31 o Ddeddf Iechyd 1999(**5**) neu reoliad 6 o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000(**6**); ac unrhyw wasanaeth tebyg sy'n cael eu darparu gan gorff gwirfoddol neu gorff arall;

(ng) ystyr "poblogaeth leol" ("*local population*") yw aelodau o'r cyhoedd sydd fel arfer yn preswylio neu sydd yn bresennol yn ardal neu ardaloedd y cyrff cyfrifol;

(h) ystyr "strategaeth" ("*strategy*") yw strategaeth iechyd a llesiant o dan a. 24 (1) o Ddeddf 2002 (a ddisgrifir yn y Rheoliadau hyn fel strategaeth "iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant") ac mae'n cynnwys strategaeth ddrafft;

(i) ystyr "swyddogaethau comisiynu" ("*commissioning functions*") yw unrhyw un o swyddogaethau'r cyrff cyfrifol neu unrhyw un ohonynt sy'n ymwneud â chynllunio, prynu neu fonitro cyflwyniad o unrhyw wasanaeth iechyd a llesiant;

(j) ystyr "trefniant comisiynu" ("*commissioning arrangement*") yw trefniant rhwng y cyrff cyfrifol mewn grŵ p trefniant comisiynu i arfer eu swyddogaethau comisiynu mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau gofal eilaidd ar y cyd ac i gydweithredu ac ymgynghori â'i gilydd mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau hynny.

Dyletswydd i gydweithredu gyda chyrff rhagnodedig

3.—(1) Rhaid i'r cyrff cyfrifol gydweithredu â'r canlynol wrth lunio ac addasu eu strategaeth —

(a) yr Ymddiredolaeth neu Ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau i'r boblogaeth leol;

(b) y Cyngor neu Gynghorau Iechyd Cymuned sy'n cynrychioli'r boblogaeth leol;

(**3**) 1977 p.49.
(**4**) 1970 p.42.
(**5**) 1999 p.8.
(**6**) O.S. 2000/2993 (Cy. 193).

(c) y Cyngor neu Gynghorau Gwirfoddol Sirol sy'n cefnogi cyrff gwirfoddol yn ardal neu ardaloedd y cyrff cyfrifol neu mewn unrhyw ran ohonynt, neu pan nad oes Cyngor o'r fath, unrhyw gorff arall o'r fath a allai fod yn cyflawni swyddogaethau tebyg i'r rhai sy'n cael eu cyflawni gan Gyngor o'r fath;

(ch) y Cynulliad; a

(d) unrhyw gorff preifat, busnes neu wirfoddol neu gorff arall sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd a llesiant i'r boblogaeth leol neu y mae ganddo fuddiant mewn darparu gwasanaethau iechyd a llesiant i'r boblogaeth leol.

(2) Cyn llunio strategaeth neu wneud unrhyw weithred o dan Reoliad 4, rhaid i'r cyrff cyfrifol mewn ymgynghoriad â'r personau neu'r cyrff a restrir ym mharagraff (1) baratoi gweithdrefn ar gyfer cydweithredu â phersonau a chyrff o'r fath.

Camau y mae'n rhaid i gyrff cyfrifol eu cymryd cyn llunio strategaeth

4.—(1) Cyn llunio strategaeth, rhaid i'r cyrff cyfrifol gynnal asesiad o anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol.

(2) Rhaid i asesiad o dan baragraff (1) gynnwys asesiad o'r materion a nodir yn rheoliad 5(2)(a) i (e) isod.

(3) Wrth gynnal asesiad o dan baragraff (1), rhaid i'r cyrff cyfrifol gydweithredu â'r personau neu'r cyrff a restrir yn rheoliad 3(1) ac ymgynghori â'r canlynol —

(a) y boblogaeth leol; a

(b) unrhyw bersonau neu sefydliadau eraill y mae'n ymddangos i'r cyrff cyfrifol eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'n debygol y bydd y strategaeth yn effeithio arnynt yn sylweddol;

a rhaid iddynt ystyried canlyniadau ymgynghori o'r fath wrth lunio asesiad anghenion o dan baragraff (1).

(4) Wrth gyflawni asesiad o dan baragraff (1), rhaid i'r cyrff cyfrifol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau ac ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan y Cynulliad yn unol ag adran 24(7)(a) neu (b) o Ddeddf 2002.

Materion y mae'n rhaid i'r strategaeth fynd i'r afael â hwy

5.—(1) Rhaid i'r cyrff cyfrifol ystyried yr asesiad anghenion a gyflawnwyd o dan reoliad 4(1) uchod.

(2) Rhaid i'r strategaeth fynd i'r afael â'r canlynol —

(a) cyflwr iechyd a llesiant y boblogaeth leol;

(b) anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol;

(c) y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau iechyd a llesiant i'r boblogaeth leol;

(ch) bylchau neu ddiffygion yn y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a llesiant i'r boblogaeth leol;

(d) risgiau i iechyd a llesiant y boblogaeth leol;

(dd) ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth leol, gan gynnwys —

(i) ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol,

(ii) hybu iechyd ac addysg, diogelu iechyd a maeth,

(iii) diogelwch bwyd (ac ystyr "bwyd" at ddibenion y rheoliad hwn yw'r ystyr a roddir i "*food*" yn adran 1 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990)(**7**),

(iv) datblygu ac adfywio cymunedol a datblygu cynaliadwy,

(v) anghydraddoldebau mewn iechyd a llesiant,

(vi) y cyfle sydd gan y boblogaeth leol i ddefnyddio gwasanaethau iechyd a llesiant ac anghydraddoldebau o ran defnyddio gwasanaethau o'r fath;

(vii) argaeledd cludiant cyhoeddus a chymunedol a'r cyfle sydd gan y boblogaeth leol i'w defnyddio;

(viii) argaeledd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'r cyfle sydd gan y boblogaeth leol i'w defnyddio;

(ix) safon a chyflwr tai y boblogaeth leol;

(e) yr anghenion iechyd a llesiant y rhagwelir y bydd ar y boblogaeth leol gydol y cyfnod gweithredol;

(f) gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol;

(ff) y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a llesiant y bydd eu hangen drwy gydol y cyfnod gweithredol i ddiwallu anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol, ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau o'r fath;

(g) y dulliau o gomisiynu a chyflwyno gwasanaethau iechyd a llesiant;

(ng) yr adnoddau ariannol neu adnoddau eraill y bydd eu hangen i weithredu'r strategaeth; ac

(h) unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 24(7)(a) neu (b) o Ddeddf 2002.

Trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau gofal eilaidd

6.—(1) Wrth lunio'u strategaeth rhaid i'r cyrff cyfrifol ystyried, —

(a) a fyddai buddiannau'r boblogaeth leol yn cael eu diwallu orau; a

(b) a fyddai modd sicrhau —

(i) gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau gofal eilaidd y maent yn eu darparu;

(ii) gwerth am arian ac effeithlonrwydd gwell wrth arfer eu swyddogaethau comisiynu mewn perthynas â gwasanaethau gofal eilaidd,

drwy ymgymryd â threfniant comisiynu gyda'r cyrff cyfrifol eraill a'r Ymddiriedolaeth neu Ymddiriedolaethau GIG yn eu grŵp trefniant comisiynu.

(2) Os bwriada'r cyrff cyfrifol beidio ag ymgymryd â threfniant comisiynu, rhaid iddynt —

(a) darparu rhesymau llawn a manwl i'r Cynulliad dros fwriad o'r fath, ynghyd â manylion o'r trefniadau amgen y mae'r cyrff cyfrifol yn eu cynnig ar gyfer y gwasanaethau comisiynu neu ofal eilaidd;

(b) ymgynghori â'r Cynulliad cyn penderfynu peidio ag ymgymryd â threfniant comisiynu, ac

(c) rhoi sylw i ymateb y Cynulliad i'r cyfryw ymgynghoriad wrth benderfynu a ddylid ymgymryd â threfniant comisiynu.

(3) Os bydd y cyrff cyfrifol yn penderfynu peidio ag ymgymryd â threfniant comisiynu, rhaid iddynt gyhoeddi'r wybodaeth a nodir ym mharagraff 2(a) uchod yn eu strategaeth.

(**7**) 1990 p.16.